


O DDIFYF AM Y GYMRAEG?

Yr her i'r Llywodraeth

Mai 2008
CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG



Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 

PRIF SWYDDFA
Llawr Gwaelod, Pen Roc,
Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ
Ffon: 01970 624501
Ffacs: 01970 6227122
swyddfa@cymdeithas.org

www.cymdeithas.org



O DDIFRIF AM Y GYMRAEG?

Yr Her i'r Llywodraeth

Rydym bellach wedi profi dros ddeng mlynedd o lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, ac wedi profi llywodraethau yn cynnwys y blaid Lafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru. Nodweddwyd y deng mlynedd diwethaf gan amrywiaeth o bolisiau ar yr iaith Gymraeg. Pwrpas cyntaf y pamffledyn hwn yw daclau na fu yr un o'r polisiau yma, o iaith Pawb hyd at y sefyllfa bresennol gyda chlymblaid Cymru'n Un, o ddifrif ynglŷn â siarhau dyfodol yr iaith Gymraeg, un ai oherwydd diffyg ewyllys neu ddiffyg ymarferol. Ei ail bwrpas yw gosod her syml a diamwys wrth ddrws llywodraeth glymbleidiol bresennol y Blaid Lafur a Phlaid Cymru – cyflwynwch ddeddfwriaeth gynhwysfawr ac effeithiol ar yr iaith Gymraeg fel cam cyntaf tuag at d dangos bod y sefyllfa yma ar newid.

Ymgais gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r iaith Gymraeg oedd Iaith Pawb. Cyhoeddwyd iaith Pawb ym mis Mawrth 2003 gan Lywodraeth y Cynulliad fel "Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru dwyieithog". Y Gweinidog â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg ar y pryd oedd Jenny Randerson o'r Democratiaid Rhyddfrydol. Rhodri Glyn Thomas oedd yn gadeirydd ar Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol a lunicodd yr adroddiad Ein Hiaith: Ei Dyfodol (Ionawr 2003) ar y cyd â'r Pwyllgor Addysg.

Mae'r Cynllun erbyn hyn felly yn bum mlwydd oed. Wrth i ddiffygion affwysol Deddf Iaith 1993 ddod i'r amlwg, ac wrth i'r momentwm gynyddu tu cefn i alwadau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg cafwyd datganiadau gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Senedd yn hawlio bod angen symud y tu hwnt i iaith Pawb, a bod angen Deddf Iaith Newydd. Prif faen tramgwydd Iaith Pawb yn 2003, ac yn wir heddiw, yw ei fod yn gosod y nod o "roi'r grym i unigolion i wneud dewis go iawn ynghylch yr iaith neu'r ieithoedd y dymunant fyw eu bywydau trwyddynt". Mae'n sôn felly am "hawl yr unigolyn i ddefnyddio'r iaith o'u dewis a chyfrifoldeb sefydliadau o fewn cymdeithas Cymru i gydnabod a hyrwyddo hawl yr unigolyn i wneud hynny". Nid yw'n cydnabod yr angen am ddeddfwriaeth newydd i sefydlu'r hawliau hynny fel y cyfryw nac i sefydlu'r cyfrifoldebau hynny ar gyffwrdd. Hyrwyddo, annog, a chreu ewyllys da fu'r trywydd. Dyna fu polisi'r Blaid Lafur ers 2003. Un o brif bwyntiau'r pamffled hwn yw dangos mai'r meddyffryd hwn sy'n parhau i ddominyddu syniadaeth llywodraeth Cymru'n Un. Mae cryn bryder y deil y llywodraeth bresennol i goleddu'r syniad nad oes angen deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod gan ddalinesydd yng Nghymru yr hawl i ddewis ym mha iaith i fyw eu bywydau, syniad sydd, fel y mae profiadau Bwrdd yr Iaith gydag amryw o fusnesau sector breifat wedi dangos, yn gwblw anghywir.

Mae iaith Pawb yn gosod sawl nod clodwiw, 60 cam gweithredu mewn gwirionedd: er enghraifft cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2011, cynyddu'r ddarpariaeth addysg yn Gymraeg, cefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol, creu uned yr iaith Gymraeg yn y Cynulliad, ayb, ayb. Er gwaethaf hyn, doedd dim amserlen bendant na thargedau manwl, perthnasol a phendant ganddo. Llywodraeth y Cynulliad ei hun sy'n adrodd ar sut y mae'n gweithredu'r cynllun, felly mae pob adroddiad blynyddol yn rhestru tudalen ar ôl tudalen o lwyddiannau, ond mae pawb ohonom yn gwybod mai bach iawn o gynnydd gwirioneddol a gafwyd. Dyma feiniadaethau sylfaenol ar y Cynllun, ei fod heb amserlen bendant a'i fod heb dargedau digon caled a pherthnasol a manwl. Mae methiant y polisi i'w weld yn glir yn ymateb Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop (Mawrth 2007) i'r ffordd y mae'r DU yn anhydeddu ei hymrwymiaadau o dan y Starter Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd Llai eu Defnydd ac Ieithoedd Rhanbarthol ers 2001, sef y dylai llywodraeth y DU, fel mater o flaenoriaeth, ddatblygu addysg Gymraeg ymhellach drwy sicrhau bod allyniant o addysg gynradd i addysg uwchradd a monitro pa gynnydd a wneir mewn addysg Gymraeg yn fwy effeithiol a chymryd camau pellach i wella gofaliachyd a gofal cymdeithasol drwy'r Gymraeg.

Tystiolaeth 1: Deddf Iaith Newydd

“Mae'r Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, ac yn rhan o'n trefnadaeth, ein hunaniaeth a'r lles cyhoeddus sy'n eiddo i ni i gyd. Byddwn yn gweithio i sicrhau y gall mwyr o bobl, yn hen ac yn ifanc, ddysgu Cymraeg a'i helpu i fyfnu fel iaith fyw mewn cymunedau lu ledled Cymru.”

“Byddwn yn ceisio cael mwyr o hawl i ddeddfu o safbwynt yr iaith Gymraeg. Gyda'n gilydd, byddwn yn gweithio i ehangu gwmpas y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg sydd wedi'i gynnwys yn rhaglen deddfwriaethol blwyddyn gyntaf llywodraeth y Cynulliad, gyda'r nod o greu Mesur Cynulliad newydd i gadarnhau statws swyddogol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau a sefydlu swydd Comisiynydd iaith.”

Ar hyn o bryd mae'r llywodraeth yn llunio Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol er mwyn sicrhau bod deddfu ym maes y Gymraeg yn digwydd yn ei briod le, sef yng Nghymru, a hwyrach erbyn cyhoeddi'r geiriau hyn y bydd union gwmpas y Gorchymyn hwnnw yn gyhoeddus. Mae'n debyg iawn hefyd y bydd y Gorchymyn hwnnw yn cynnwys yr hawl i roi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg, a'r hawl i sefydlu swydd Comisiynydd iaith. Mae'r naill yn gam symbolaidd hollbwysig, a'r llall yn gam ymarferol cwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan unrhyw ddeddf newydd y clannedd a oedd ar goll o Ddeddf 1993. Mae yna farc cwestiwn mawr uwchben mater sicrhau hawliau ieithyddol fodd bynnag. Mae'r cymal yn y dyfyniad uchod yn hynod annelwig. Yn syml, dylai hyn olygu bod hawl gan ddinesydd yng Nghymru i allu derbyn gwasanaeth o unrhyw fath, gan sefydliad, cwmni neu ddarparwr o unrhyw faint, mewn unrhyw sector, drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai allu gweld a chlywed y Gymraeg o'i gwmpas i'r un graddau â'r Saesneg ym mhob agwedd o fywyd sydd yn ymwneud â'r sector cyhoeddus, breifat neu wirfoddol. Os nad yw hyn yn bosib, bydd ganddo'r hawl i wneud cwyn at y Comisiynydd, a fydd yn mynd â'r mater ymhellach, gan ddefnyddio holl bwerau'r llysoedd. Y cwmnïau a all ffordd hyn a fyddai'n cydymffurfio gyntaf; bydd amser a chymorth yn cael eu cynnig i fusnesau llai i gydymffurfio dros gyfnod tipyn hwy. Hynny, a hynny'n unig fyddai'n sicrhau hawliau. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cynnwys y sector breifat yn ei chyfanrwydd mewn Deddf iaith Newydd. Y sector breifat yw'r sector sy'n effeithio fwyaf aron ni o ddydd i ddydd. Faint o weithiau mewn wythnos yr awn i brynu bwyd? Faint o weithiau'r wythnos ydyn ni'n ffonio'r cwmni dŵr? Dangoswyd ar hyd y degawd diwethaf nad yw defnyddio perswâd i sicrhau hawliau i bobl Cymru o ran yr iaith Gymraeg yn gweithio. Dro ar ôl tro, clywyd gan fusnesau fel Orange a Vodafone na fyddant yn ystyried defnyddio'r Gymraeg cyn bod deddfwriaeth yn gwneud hynny'n arfodol. Mewn gwledydd lle mae rheidiwydd cyfreithiol ar gwmnïau preifat i gynnig gwasanaethau mewn ieithoedd eraill, mae cwmnïau mawr, fel Ikea, yn ddigon hapus i wneud hynny, ond yng Nghymru, lle nad oes

rheidrwydd, rhaid bodloni ar frwsion. Mae wedi cymryd cryn ddeng mlynedd o ymgyrchu er mwyn cael Tesco, cwmni a wnaeth etw o £2.5 biliwn yn 2007, i gyraedd y cyflwr anwastad presennol o 'ddwyieithrwydd' yn eu siopau. Yr hyn y mae hynny'n golygu yw rhai arwyddion parhaol dwyieithog, cyhoeddiadau Tannoy dwyieithog achlysurol mewn ambell gangen ac ambell becyn cynnyrch dwyieithog. Gyda £2.5 biliwn o etw blynyddol, mae unrhyw beth llai na dwyieithrwydd llwyr gan gynnwys deunydd marchnata, arwyddion dros dro, pecynnu nwyddau a hyfforddi staff cwbl ddwyieithog yn sarhad ar gwsmeriaid a chymunedau Cymru. Er cymaint yw brwdfrydedd rhai unigolion y bu Cymdeithas yr Iaith yn trafod â nhw o fewn y cwmnïau, mae galw ymateb araf Tesco a Morrisons yn flaengarwch a brwdfrydedd yn fethiant i wynebu'r sefyllfa.

Ni ellir felly sicrhau hawliau mewn modd ystyrlon heb ddeddfu, – yr her i'r llywodraeth yw bod â'r asgwm cefn i ddangos eu bod yn credu bod yr iaith Gymraeg yn rhywbeth sy'n ddigon pwysig i gyflwyno deddfau ar y sector breifat i'w diogelu. Colli cyfle fyddai cyfyngu'r ddeddf i'r cyfleustodau (fel sydd yn debygol o ddigwydd), neu i ambell fusnes mawr yn y sector breifat. Nid colli cyfle yn unig chwaith, ond gwrthod cymhwyso egwyddorion sosialaidd i'r iaith Gymraeg. Mae'r mater yma yn fater syml o ymyrraeth â'r farchnad er mwyn sicrhau hawliau i ddinasyddion, yn union yr un modd ag yr ymyrrwyd â hi er mwyn sefydlu'r isafswm cyflog, i atal gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, rhywioldeb, anabledd a chrefydd, ac i sefydlu hawl gweithwyr i ymuno ag undeb. Mae'r uchod yn destun balchder i bob sosialydd wrth reddf, felly beth yw gwreiddyn yr anallu i drin y Gymraeg yn yr un modd? Ai diffyg egwyddorion sosialaidd yn y pleidiau a fu'n llywodraethu? Er hawdd y byddai credu hynny, mae rhai polisiau, ym maes iechyd yn benodol, yn dadlau i'r gwrthwyneb.

Mae elfennau yn y glymblaid yn dal i weld yr iaith fel mater i'r dosbarth canol, fel consym yr academyddion a'r athrawon, ac yn gweithredu yn ddeddfwriaethol ar y rhagdyb hwnnw, ar fater deddf iaith newydd beth bynnag. Rhaid iddynt sylweddoli, cyn y collir y cyfle, bod hyn yn gamgymeriad syniadaethol ac ymarferol. Byddai cyflwyno deddf iaith newydd gyflawn, gynhwysfawr, yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn iaith fyw, hygyrch i bawb yng Nghymru, waeth beth fo'i gefndir, hil, neu'i ddsbarth. Dyna fyddai gweithred gan lywodraeth sosialaidd.

Tystiolaeth 2: Dyfodol y Gymraeg fel iaith Gymunedol

“Mae gan bawb yr hawl i gartref fforddiadwy fel perchennog, fel rhan-berchennog neu fel tenant. Mae stoc o gartrefi fforddiadwy o ansawdd dda yn sail i gymunedau lleol sy'n ffynnu ym mhob cornel o Gymru. Ein huchelgais yw sicrhau y gall pob aelwyd, ym mhob cymuned, waeth beth fo'i hincwm, fforddio cartref boddhaol.”

“Byddwn yn sicrhau hefyd fod cynnydd o 6,500 o leiaf yn y cyflenwad o dai fforddiadwy yn

ystod hefyd yn rhoi cymorth ariannol i bobl ifanc sy'n dymuno prynu eu cartref cyntaf yn eu cymuned eu hunain ond yn methu fforddio gwneud hynny."

"Byddwn yn adolygu ac yn ailgyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 gyda golwg ar ganiatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio Asesiadau Effaith Ieithyddol at ddibenion cynllunio mewn ardaloedd lle ceir clifffig tai."

"Byddwn yn rhoi'r gallu i awdurdodau lleol sicrhau bod 100% o'r tai a adeiladur ar safle datblygu yn dai fforddiadwy, er mwyn diwallu anghenion lleol mewn ardaloedd lle mae pwysau mawr oherwydd clifffig tai."

"Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod y cyflenwad o dai fforddiadwy yn cynyddu, drwy fuddsoddi mewn tai cymdeithasol - gan gynnwys tai cyngor - a thrwy hybu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy yn y sector preifat."

"Bydd angen i bob datblygiad sylweddol i adeiladu tai newydd gynnwys carran o dai cymdeithasol sy'n adlewyrchu'r angen lleol."

"Byddwn yn gwella pethau'n radical o ran darparu cyflenwad o dir sy'n eiddo cyhoeddus - gan gynnwys tir sy'n eiddo i Lywodraeth y Cynulliad - ar gyfer tai lleol fforddiadwy."

Mae cyfran helaeth y dyfyniadau uchod yn defnyddio'r term 'tai fforddiadwy.' Yn haniaethol, ac mewn byd delfrydol, mae hyn yn gysyniad ymddangosiadol deg. Yn y byd sydd ohoni, fodd bynnag, mae tŷ fforddiadwy, fel y'i diffinnir ac fel y'i defnyddir gan awdurdodau lleol a datblygwyr tai yn sicrhau bod y cysyniad yn un sydd yn annheg, yn anfoesol, ac yn anymarferol. Mae amrywiaeth eang mewn polisiâu cynllunio awdurdodau lleol o ran meini prawf ar gyfer tai fforddiadwy, hyd yn oed mewn ardaloedd ymddangosiadol debyg. Yn aml, dynodir canran o unrhyw ddatblygiad newydd yn 'fforddiadwy.' Mae hyn yn gwbl anfoesol, gan ei fod yn golygu bod y gweddill yn anfforddiadwy, ac allan o afael y boblogaeth leol. Dyma ffaith sydd yn cael ei dwysau gan y gwahaniaeth enbyd rhwng prisiau tai a chyflogau, sydd yn golygu yn aml nad yw hyd yn oed y tai 'fforddiadwy' yma o fewn gafael pobl ifanc lleol. Yn y wasgfa gredyd bresennol, ble mae hyn yn gadael person, pâr neu deulu ifanc lleol sydd am aros yn eu cymuned? Ble mae hyn yn gadael y dyfyniad cyntaf uchod, bod gan bob unigolyn "yr hawl i gartref fforddiadwy fel perchennog, fel rhan-berchennog neu fel tenant"? A yw'r llywodraeth wedi cychwyn ar gynlluniau i sicrhau'r hawl yma i bob dinesydd? Pryd bydd gan unigolyn 'Hawl i Brynu' i fenthyg slogan o'r gorffennol, dŷ yn ei ardal leol? Neu efallai yn fwy perthnasol yn y sefyllfa gredyd bresennol, pryd bydd ganddo'r Hawl i Rentu? Yn yr un modd ag y dadleuir yma ar fater deddf i'caith newydd, nid oes modd sefydlu'r hawl i rywbeth morsylfaenol â hawl i gartref fforddiadwy heb gyflwyno deddf ac ymyryd yn y farchnad rydd, a gwahaniaethu'n gadarnhaol o blaid pobl leol. Nid yw sicrhau bod cyfran o bob datblygiad yn dai fforddiadwy yn sicrhau hawl i gartref.

Yr unig bwynt polisi sydd yn cynnwys sylw at y Gymraeg, yw y dylid ailgyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 20 i gynnwys rhai'r hawl i Awdurdodau Lleol gynnwys Asesiadau Impact leithyddol ar ddatblygiadau newydd. Hyd yn oed fan hyn mae arwyddion o amharodwydd i ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae'r egwyddar a'r bwriad yn angenrheidiol ac i'w croesawu. Yn aml, yr unig amddiffyn sydd gan gymuned rhag datblygiadau anaddas yw asesiadau impact iaith. Mae'r adroddiadau hyn yn annibynnol ar y rhai a wneir gan gwmni'r datblygwyr sef asesiadau arwynebol ac afrealistig o effaith eu datblygiad ar y gymuned leol. Rhaid ffurfioli trefn a dilyswydd yr asesiadau annibynnol hyn. Rhaid, yn wir, eu gwneud yn rhagofyniad cyn caniatáu unrhyw ddatblygiad; dyma lle mae'r uchod yn methu. Trwy beidio â sicrhau'r rheidwydd yma, a 'chaniatáu' i awdurdodau lleol wneud asesiad yn unig, mae'r Llywodraeth yn colli cyfle i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth hanfodol i faterion cynllunio. Nid dadl yn erbyn datganoli grym i gymunedau yw hyn, ond sicrhau bod canllawiau clir a diamwys ar gael i awdurdodau lleol eu dilyn. Tebyg yw'r gŵyn am roi'r 'gallu i awdurdodau lleol sicrhau bod 100% o'r tai a adeiladir ar safle datblygu yn dai fforddiadwy, er mwyn diwallu anghenion lleol mewn ardaloedd lle mae pwysau mawr oherwydd diffyg tai.' Gellid bod wedi sicrhau bod hyn yn hanfodol. Yn yr un modd, mae Cynlluniau Gweithredu Lleol, gweithiau ymchwil ar gyfer pwrpas cynllunio y gall awdurdodau lleol eu comisynu mewn ardaloedd sydd yn cael eu hadnabod fel achosion arbennig, yn gamau deisol. Gall yr awdurdodau lleol eu comisynu, ond mewn gwirionedd, ni fyddant yn gwneud hyn yn achos cymunedau Cymraeg heb arweiniad gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r sefyllfa yn arwain at y naill ochr a'r llall yn trosglwyddo cyfrifoldeb i'w gilydd.

O'u gweithredu bydd y cynlluniau ar gyfer darparu mwy o dai sy'n eiddo cyhoeddus yn gam pwysig ymlaen, ynghyd â sicrhau na chaiff y stoc bresennol ei cholli i'r sector breifat, yn rhai blaengar a phwysig. Eto, fel yn achos deddf iaith newydd, rhaid i'r llywodraeth ddangos bod ganddynt yr asgwrn cefn i fod yn wahanol, a dangos eu parodwydd i gymryd camau radical i sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg fel iaith gymunedol, yn wyneb y cyfnod mwyaf argyfyngus yn ei hanes.

Tystiolaeth 3: Addysg

“Byddwn yn sefydlu Rhwydwaith Addysg Uwch Cyfrwng-Cymraeg - y Coleg Ffederal – er mwyn sicrhau darpariaeth Gymraeg yn ein prifysgolion.”

Mewn gwirionedd mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg heb i fwyatrif helaeth o aelodau'r ddwy blaid wybod beth olygai hynny. Nid yw hynny'n syndod mewn gwirionedd gan bod y disgwrs dros y blynyddoedd wedi ei nodweddu gan datrysych ynglŷn a beth yn union oedd Coleg Ffederal. Efallai na ddylem synnu chwaiith felly, nad yw cynlluniau'r llywodraeth ar gyfer gwireddu'r addewid yn ymdebygu i'r coleg y buom yn

ymgyrchu drosto cyhyd. Yn 'Coleg Ffederal Cymraeg: Cynllun Gweithredu, Tachwedd, 2007,' papur polisi Cymdeithas yr Iaith ar fater coleg Ffederal, mae egwyddorion sylfaenol angenrheidiol y Coleg yn cael eu gosod. Mae angen i'r coleg fod yn enlid cyfansoddiadol annibynnol, gyda siarter a maes gwaith annibynnol (gan gynnwys addysg gymunedol ac ymchwil). Bydd adrannau arbennig yn Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) Cymru yn cael eu comisiynu gan y Coleg Ffederal Cymraeg i gyflogi darlithwyr a datblygu darpariaeth gref ac ymchwil yn y Gymraeg.

Byddai myfyrwyr Cymraeg yn cofrestru yn y Sefydliad Addysg Uwch (SAU) unigol, ac yn cofrestru de facto gyda'r Coleg Ffederal Cymraeg wrth iddynt gymryd cwrs neu fodiwl a gyllidir gan y Coleg Ffederal Cymraeg, fel eu bod yn medru manteisio ar rwydwaith cenedlaethol o arbenigedd sydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy gofrestru gyda'r coleg byddai ymdeimlad o berthyn i gymuned a sefydliad academaidd Cymreig yn cael ei feithrin, gan ychwanegu yn ei dro at ymdeimlad yr unigolyn o ddinasyddiaeth gyflawn Gymreig. Mae angen i'r coleg ffederal dderbyn llif arian ychwanegol ac annibynnol, yn gymharol i SAU eraill Cymru. Byddai hyn nid yn unig yn sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael cyfran deg o gacen cyllid addysg uwch, ond byddai hefyd yn sicrhau bod SAU Cymru yn ystyried addysg Gymraeg o ddirif ac yn fanteisiol yn ariannol iddynt ddatblygu darpariaeth Gymraeg. Byddai hyn yn gam sylweddol ymlaen oddi wrth y sefyllfa bresennol lle ystyrir addysg Gymraeg fel ategolyn sydd ond angen cyfran fechan o gyllid ar drugaredd yr SAU trwy gyfrwng HEFCW. Mae'n ddewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg gyflawn sy'n gweithredu fel aelod llawn o'r gymuned academaidd ar y naill law, a pharhau i fod yn ystyriaeth eitradd o'r byd academaidd Saesneg 'go-iawn' ar y llall. Rhaid wrth weithredu pob un o'r egwyddorion uchod er mwyn sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg llwyddiannus; cyfaddawd gwan fydd unrhyw beth sy'n tynnu un o'r elfennau hyn ac yn anghofio'r lleill.

Yr hyn a gynigwyd gan y llywodraeth ym mis Tachwedd 2007 oedd parhad o'r cynllun a gynigwyd gan arolwg Arad Consulting yn 2006, cynllun i weithio oddi fewn i'r system gyfansoddiadol ac ariannol bresennol, cynllun mewn gwirionedd, i barhau gyda'r status quo. Cynigir £4.3 miliwn dros 4 mlynedd; pan gymerir hyn gyda chyllideb anferthol addysg uwch cyfrwng Saesneg yng Nghymru o tua £424 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf mae'n amlwg bod angen cynllun amgenach os yw'r llywodraeth o ddirif am sicrhau sector addysg uwch cyfrwng Cymraeg gwerth yr enw. Nid cynllun ar gyfer sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg ydyw, ond cynllun ar gyfer sefydlu bwrdd rheoli er mwyn rhannu'r ychydig arian ychwanegol fydd ar gael, heb wylltio gormod ar yr SAU. Rhaid i'r llywodraeth ystyried eu cynlluniau unwaith eto, neu fe fydd cyfle arall ar gyfer gweithredu yn flaengar a chyffrous wedi ei goli.

“Byddwn yn llunio cytundeb polisi newydd gydag Awdurdodau Addysg Lleol i'w gwneud yn ofynnol iddynt asesu'r galw am addysg Gymraeg, gan gynnwys ystyried dymuniadau'r rhieni drwy holiadur, a llunio Cynllun Trefniadaeth Ysgolion, yn nodi camau clir i'w cymryd er mwyn diwallu'r angen.”

“Byddwn yn creu Strategaeth Addysg gyfwrng-Cymraeg genedlaethol i ddatblygu darpariaeth effeithiol o addysg feithrin hyd at addysg bellach ac uwch, a'r strategaeth wedi'i hategu gan raglen weithredu.”

“Byddwn yn parhau â'r trefniadau grant presennol ar gyfer ysgolion bach a gwledig, gan wneud gwell defnydd o adeiladau ysgol er mwyn bod yn fwy hyfryd.”

Mae'r pwynt cyntaf uchod yn sicr yn gam pwysig ymlaen, ac o'i weithredu bydd yn gosod rheidrwydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i gynllunio rhag blaen ar gyfer addysg cyfwrng Cymraeg mewn modd mwy cydlynol nag sydd yn digwydd ar hyn o bryd. Mae llywyddiant y polisi yma yn ddibynnol ar sicrhau gweithredu'r canllawiau hyn gan yr awdurdodau lleol i raddau mwy swyddogol nag a wnaed yn y gorffennol.

Mae'r bwriad o greu Strategaeth Addysg cyfwrng-Cymraeg gydlynol hefyd yn ymddangos yn syniad da. Er hyn, mae profiad Cymdeithas yr Iaith yn y maes yma eisoes yn awgrymu nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu yn y modd cydlynol y maent yn ei arddel yn y ddogfen bolisi. Mae'r dyfyniad uchod ar ddefnydd amgen o ysgolion pentrefol yn rhywbeth y mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn galw amdano trwy gydol yr ymgyrch ddiweddar yng Nghaerfyrddin, Gwynedd a Phowys. Gan ddechrau gyda'r rhagdyb angenrheidiol y dylid gwahaniaethu'n gadarnhaol o blaid ysgolion pentrefol gan eu bod yn gweithredu fel canolfannau cymunedol sydd yn aml yn sicrhau hyfrydedd cymunedau naturiol Cymreig, gan gynnwys bod yn gyfwrng i gymhathu mewn fudwyr i'r cymunedau hynny. Rhaid cydnabod hefyd bod llyfardd gwag mewn ysgolion yn costio'n ddarud i awdurdodau lleol. Beth yw'r ateb felly? Gallai'r ymrwymiad uchod gynnwys trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros adeiladau ysgolion pentrefol i'r adran Materion Gwledig, ac i'r adran adfywio cymunedol yn benodol. Gallai'r Awdurdod Lleolentu'r gofod angenrheidiol ar gyfer rhedeg ysgol hyfryd yn ôl oddi wrth yr adran yma. Gellid defnyddio gweddill yr adeilad ar gyfer prosiectau adfywio cymunedol a chymdeithasol. Ond byddai hyn wrth gwrs, yn golygu cydweithio rhwng dwy adran annibynnol o fewn y llywodraeth. Hyd yn hyn, llugoer a dweud y lleiaf fu'r ymateb i awgrymiadau y dylai'r adrannau annibynnol gydweithio. Ymddengys felly fod ymlyniad at ddull adrannol San Steffan o lywodraethu yn llesteirio gallu Llywodraeth y Cynulliad i lywodraethu yn y modd cydlynol, blaengar y maent mor hoff o'i hyrwyddo ar bapur. Rhaid i hyn newid ymhob maes os yw'r llywodraeth i wireddu ei haddewidion.

“Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu Uned Cymraeg i Oedolion a ariennir yn ddigonol, gan roi blaenoriaeth i addysg diwtora.”

Unwaith eto, mae'r pwynt yma yn amcanu'n iawn, mae cynyddu'r nifer o gyfleon i bobl ddysgu'r Gymraeg yn hanfodol, ond rhaid gofyn y cwestiwn beth yw gwerth gwneud hyn heb

hefyd sicrhau bod yr iaith yn weladwy ac yn hygyrch o'u cwmpas ym mhob agwedd o fywyd? Rhaid sicrhau nid yn unig bod cyfeon ar gael i ddysgwyr gael y cyfeon i gael mynediad at wersi, ond bod ganddynt gyfeon i ddefnyddio'r iaith bob diwrnod. Fel y dadleuir isod, nid oes modd gwneud hyn mewn modd ystyrlon heb gyflwyno deddfwriaeth gadarn.

Tystiolaeth 4: Y Wasg Gymraeg a'r Papur Dyddiol

"Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg."

Bu'r penderfyniad i gyflwyno £200,000 ychwanegol y flwyddyn i'r wasg Gymraeg yn ei chyfarwydd yn hytrach na chynnig yr arian angenrheidiol i gadw at addewid Cymru'n Un o sefydlu papur dyddiol Cymraeg yn achos siom a dadrithiad enfawr i drwch aelodaeth Plaid Cymru ac aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Yn gyntaf, roedd yn addewid diamwys yn nogfen Cymru'n Un. Torwyd yr addewid hwnnw. Gwaethygydd hyn gan agwedd aelodau Plaid Cymru yn dilyn y cyhoeddiad. Buan iawn y cyhoeddodd ffigyrau amlwg Cymru eu hamheuo ynghŷn â phapur print dyddiol trwy gyfwrng y Gymraeg, a'u cred mai at y we y dylid troi ein golygon. Er na ddylid dadlau yn erbyn syniadau blaengar a chyffrous mewn cynlluniau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, mae'n ddyletswydd tynnu sylw at adegau pan fo rhagrith polisiol ac ideolegol yn amlwg. Yn ail, ystyrir papur dyddiol yn elfen hanfodol o hunaniaeth a hunan-hyder cenedl; dylai fod yn nodwedd o bob iaith yn ôl yr Undeb Ewropeaidd. Byddai galluogi rhywun i ddarllen newyddion yn ei iaith ei hun yn gam enfawr tuag at normaleiddio'r iaith ymysg poblogaeth Cymru. Byddai'n anogaeth ac yn ysbrydoliaeth i ddysgwyr yn ogystal, ac mi fyddai'n gam tuag at sefyllfa o amrywiaeth iach o ran newyddiaduraeth cyfwrng Cymraeg a Chymreig, rhywbeth y mae ar ein gwleidyddiaeth ddatganoledig ei angen yn fawr.

Mae nifer fawr iawn o boblogaeth Cymru nad ydynt yn gweld y we fyd-eang o un pen i'w hwythnos i'r llall, am resymau ariannol ac argaeledd gwasanaethau. Mae'r bobl yma i'w cael ym mhob dosbarth cymdeithasol ac ym mhob ystod oedran. Beth fyddai effaith sefydlu papur dyddiol Cymraeg ar y we felly? Gwyn ein byd y rhai ohonom sydd yn gweithio o flaen cyfrifiadur yn ddyddiol – rhoddir inni newyddiaduraeth a newyddion dyddiol yn ein hiaith (anwybyddwn am eiliad y ffaith bod gennym newyddion dyddiol ar-lein Cymraeg eisoes yn Nghymru'r Byd). I'r bobl nad ydynt mor ffodus, dywedwn wrthynt nad oes ganddyn nhw'r hawl i'r pethau hyn.

Dyma enghraifft fechan o'r anallu i gymhwyso egwyddorion sosialaidd i faterion ieithyddol.

O DDIFRIF AM Y GYMRAEG? DYMA'R CYFLE.

Mae llawer o'r hyn sydd yn nogfen Cymru'n Un yn bolisiau a all fod yn hanesyddol, ond rhaid gweithredu yn llawn ac yn gwblw argyhoeddedig ac angerddol ar yr addewidion Mae angen edrych ar yr holl feysydd a drafodwyd uchod sydd yn berthnasol i ddyfodol y Gymraeg. Mae rhai pwytiau y gellir eu gweithredu yn syth. Mae eraill yn golygu newid meddyfryd a thori'n rhydd o feddyfryd traddodiadol, geidwadol, Brydeinig o lywodraethu a fydd yn cymryd mwy o amser.

Y cam cyntaf i ddangos bod y Llywodraeth yma o ddirif am yr iaith Gymraeg yw sicrhau Deddf Iaith Newydd gyflawn, gynhwysfawr, effeithiol. Os na wneir hyn bydd cyfle gwirioneddol wych wedi'i gollu i wneud gwahaniaeth arhosol a hanesyddol i hunaniaeth y genedl. Bydd cyfle gwych wedi ei gollu i ymuno gyda chenhedloedd Ewrop sydd yn meddu ar yr hyder i gyflwyno polisiau cryfion i warchod eu hieithoedd. Gwelwyd eisoes y modd y cosbwyd y Blaid Lafur yn etholiadau lleol, etholiadau'r Cynulliad a Llywodraeth Prydain gan etholwyr ardaloedd y gorllewin a'r gogledd. Bellach, mae'r pwysau hynny ar Blaid Cymru yn ogystal, fel y gwelwyd yn yr etholiadau lleol. Mae ganddynt gyfle bellach, y cyfle gorau ers sefydlu'r Blaid i wneud gwahaniaeth i ddyfodol yr iaith Gymraeg, i 'adfer yr iaith Gymraeg yng Nghymru.' Dyma'r cyfle i weidyddion Plaid Cymru, a gwleidyddion y Blaid Lafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol i ddangos eu bod o ddirif am yr iaith Gymraeg.

Dyma'r cyfle – peidied â'i gollu.

Hywel Griffiths